in view

GAEAF 2011

Cymeradwyo Panel Darllen

Tenantiaid yn dathlu eu cyflawniadau yn y TAFFI's

newydd

Cynnwys

03 Y newyddion diweddaraf am y paneli Ffotofoltaig

04 CCB a TAFFI's

05 "Rwy'n ffonio Newydd ac mae pethau wedi newid, pam?"

06 Ydych chi wedi rhoi cynnig ar adrodd am waith trwsio ar-lein?

07 Curo'r oerni

08 Peryglon gwenwyn carbon monocsid

10 Cynghorion Scott Tandy ar gadw'n gynnes y gaeaf hwn

11 Cyhoeddi enwau eich aelod newydd etholedig o'r Bwrdd...

12 Ydych chi'n cael problemau gydag ymddygiad gwrth gymdeithasol?

13 Gweithgarwch codi arian yn Newydd

14 Eich pryderon a'ch cwynion

15 Sioe Freddie Starr

16 Diwrnod ym mywyd Sarah Davies

17 Tenantiaid yn cyflwyno deiseb budd-daliadau i Dŷ'r Arglwyddi

18 Siopa di-stop!

20 Arolwg Tenantiaid 2011

22 Newyddion diweddaraf gan y Tîm

25 Partneriaeth Cymunedol

26 Newyddion diweddariad am dai lloches

27 Stephen Newman yn trafod undebau credyd

28 Ydych chi eisiau symud?

Croeso i rifyn y Gaeaf o'r cylchgrawn In View!

Hoffech chi ysgrifennu erthygl, rysait neu gael hysbyseb AM DDIM yn ein cylchgrawn In View?

Anfonwch eich cyfraniadau at Mared trwy e-bostio **mared.williams@newydd.co.uk** neu ffonio **02920 005412.**

Os ydych eisiau In View mewn ieithoedd neu fformatau eraill, yn cynnwys Braille, ffontiau mawr neu ar CD neu dâp, yna mae hyn ar gael dim ond gofyn a chysylltu gyda Mared gan ddefnyddio'r manylion uchod. Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth Llinell Iaith hefyd i siarad gyda rhywun yn eich dewis iaith. Cysylltwch â Newydd trwy ffonio **0303 040 1998.**

Cynllun yr Iaith Gymraeg

Mae gennym Gynllun yr Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac yr ydym yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd. Mae'r cynllun a'r adroddiad monitro ar gael dim ond gofyn amdanynt, ac maent ar ein gwefan hefyd yn yr adran 'Amdanom Ni'.

Amdanom ni

Rydym yn rhoi ein tenantiaid a'n cwsmeriaid yn gyntaf ym mhopeth a wnawn. Rydym yn gymdeithas tai elusennol gyda 2,600 o gartrefi o ansawdd ar rent ac ar werth yng nghanolbarth a de Cymru.

Oriau agor dros y Nadolig

Bydd swyddfeydd a chanolfannau cymunedol Newydd ar gau o **3yp dydd Gwener 23 Rhagfyr 2011**. Bydd ein oriau agor arferol yn ail gychwyn o **9yb dydd Mawrth 3 Ionawr 2012**. I adrodd am waith trwsio brys yn ystod y cyfnod hwn ffoniwch **0303 040 1998** a dilynwch y dewisiadau. Byddwch yn adrodd am waith trwsio brys yn uniongyrchol i'n contractwyr yn ystod cyfnod y Nadolig; byddant ar gael i dderbyn eich galwad 24 awr y dydd.

Newyddion diweddaraf am y paneli Ffotofoltaig

Efallai y byddwch yn cofio derbyn llythyr oddi wrth Newydd ym mis Awst a darllen erthygl yn y rhifyn diwethaf o In View yn dweud wrthych ein bod yn bwriadu gosod paneli ffotofoltaig (PV) ar do eich cartref yn ystod yr hydref. Roeddem yn ceisio gwneud hyn trwy brydlesu ein toeau i'r cwmni oedd yn mynd i osod y paneli.

Hoffem roi gwybod i chi ein bod wedi cael problemau o ran cytuno ar delerau'r brydles ac oherwydd hynny bu oedi mewn gosod y paneli. Efallai hefyd eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gostwng lefel y Tariff Bwydo'i Mewn y bydd y gosodwr yn ei dderbyn. Mae hyn hefyd wedi ychwanegu at y broblem a'r oedi. Rydym yn gobeithio dod i gytundeb gyda gosodwr yn y flwyddyn newydd a dechrau gosod paneli yn ystod 2012.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y prosiect PV cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Stuart Davies trwy ffonio **0303 040 1998** neu e-bostio **ymholiadau@newydd.co.uk**

DVD AM DDIM GYDA'R RHIFYN HWN O IN VIEW!

Mae'r DVD hon wedi'i chynhyrchu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac mae'n rhoi cynghorion syml a defnyddiol i chi ar sut i arbed ynni yn eich cartref ac felly helpu i ostwng eich biliau ynni. Mae mynegai ar y DVD fel bod modd i chi fynd i'r bennod allai fod o'r diddordeb mwyaf i chi.



Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Gwobrau Tenantiaid am Gyfranogiad Gwych (TAFFI's)

Ar ddydd Mercher 14 Medi fe wnaethom gynnal ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a Gwobrau Tenantiaid am Gyfranogiad Gwych (TAFFI's) yng Nghlwb Rygbi Pontypridd. Ar ôl diolch i'n tenantiaid gwych am eu holl waith caled gyda phryd o fwyd blasus, adolygodd Paul Roberts uchabwyntiau'r flwyddyn.

Hefyd chwaraeodd Paul y ffilmiau ardderchog a grewyd gan Sialens Ieuenctid Newydd. Dros yr haf buont yn ffilmio eu cymuned a dweud wrthym beth yr oeddent yn ei fwynhau pan aethant i aros yn yr YMCA yn Newgale, Sir Benfro. Er mwyn gweld y fideos ewch i'n sianel You Tube yn **www.youtube.com/NewyddHousing**.

Yn y prynhawn fe wnaethom groesawu Keith Edwards atom, Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Tai Cymru a bwysleisiodd bwysigrwydd cyfranogiad tenantiaid a'r llwyddiant y mae tenantiaid wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd o ran sicrhau bod ganddynt lais.

Canlyniadau Gwobra Tenantiaid am Gyfranogiad Gwych (TAFFI's) oedd:

Grŵp a gyflawnodd orau
NEADS – Grŵp Cydraddoldeb ac Anabledd Newydd

Y grŵp mwyaf gweithgar
SASH – Grŵp Cefnogi Holl Dai Lloches

Cyflawniad academaidd gorau
Grŵp Craffu Tenantiaid

Grŵp newydd gorau
Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol

Cyflawniad Iau
Sialens Ieuenctid Newydd

“Rwy’n ffonio Newydd ac mae pethau wedi newid, pam?”

Efallai eich bod wedi sylwi bod pethau wedi newid pan fyddwch yn cysylltu gyda ni ar y ffôn 0303 040 1998. Mae Newydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid trwy gydnabod eich anghenion unigol. Rydym felly yn defnyddio system newydd i’n helpu i wneud hyn. Buom yn gweithio gyda grŵp o denantiaid i sefydlu’r system newydd hon.

Beth sy’n digwydd pan fyddaf yn ffonio Newydd?
Byddwch yn cael eich tywys trwy gyfres o cwestiynau diogelwch i gadarnhau ein bod yn siarad gyda’r person cywir. Efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth fel bod modd i ni ddiweddaru eich proffil hefyd, er enghraifft, eich dyddiad geni, manylion cyswllt a rhif yswiriant cenedlaethol. Mae’r manylion hyn yn ein helpu i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi sydd yn berthnasol i’ch anghenion. Gallwch ofyn i’ch data gael ei ddiogelu gan gyfrinair. Am ragor o wybodaeth am hyn holwch ni pan fyddwch yn ein ffonio.

Pam ydym ni’n gwneud hyn?
1. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gywir ac wedi’i ddiweddaru. Y rheswm dros hynny yw ein galluogi i ddarparu gwasanaethau gwell i chi yn benodol i’ch anghenion. **Nid ydym yn trosglwyddo’r wybodaeth hon i neb arall.**
2. Er mwyn cofnodi’r sgyrsiau a gawn gyda chi. Ac felly os oes rhaid i chi wneud ymholiadau am rhywbeth gallwn ddatrys y broblem yn gyflym i chi.
3. Er mwyn cael yr holl wybodaeth berthnasol am eich tenantiaeth ar un sgrin. Ac felly gallwn ddarparu gwasanaeth cyflymach mwy effeithlon i chi gan mai dim ond gydag un person y bydd rhaid i chi siarad. Caiff nifer o ymholiadau fel gofyn am fantolen rhent neu dalu rhent eu trin ar eich pwynt cyswllt cyntaf.

Dros yr wythnosau nesaf efallai y bydd rhywfaint o oedi cyn i’ch galwad gael ei hateb gan y bydd y staff yn ymgyfarwyddo gyda’r system newydd.

Ymddiheuriadau am y gystadleuaeth garddio

Rydym yn ymddiheuro na wnaethom sôn bod Ms Trump a Mrs Davies wedi bod yn gweithio yn yr ardd gymunedol ym Maes yr Eglwys. Mae'r ddwy yn gyd enillwyr teilwng yng nghystadleuaethau Gardd Orau a Gardd Gymunedol Orau.

Rydym yn ymddiheuro hefyd am ddefnyddio'r ffotograff anghywir ar gyfer y gystadleuaeth Gardd Orau yn y rhifyn diwethaf o In View. Y ffotograff a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Ardd Orau oedd mewn gwirionedd y ffotograff ar gyfer yr ail wobr a enillwyd gan Ms Evans o Maes yr Eglwys.

Ydych chi wedi rhoi cynnig ar adrodd ar waith trwsio ar www.newydd.co.uk?

Gallwch adrodd am waith trwsio ar ein gwefan www.newydd.co.uk. Cliciwch ar 'Adrodd am Waith Trwsio' ac yna cliciwch ar y logo coch 'Galwad Tŷ'. Yna cewch eich harwain trwy gyfres o ddiagramau i adrodd am eich gwaith trwsio. Unwaith y byddwch yn dangos ar y diagram ble yr ydych angen gwaith trwsio caiff ei anfon at ein tîm cynnal a chadw a byddant yn delio gyda'r broblem. Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio Galwad Tŷ rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Wnaethoch chi ennill?

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i'r holl denantiaid sydd wedi llenwi a dychwelyd yr holiadur boddhad tenantiaid. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddelio gydag unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r modd y mae gwaith trwsio wedi'i gwblhau.

Bob chwarter gallech ennill gwobr o £150.00 am gwblhau a dychwelyd yr holiadur. Enillydd lwcus y chwarter hwn ydy Mr May o Lon Glanyrafon. Anfonwch eich ffurflenni boddhad atom oherwydd dyna'r unig ffordd y bydd genych siawns o ennill!



Curo'r oerni

Un o'r risgiau uchaf i'ch eiddo personol ar yr adeg hon o'r flwyddyn yw difrod oherwydd bod pibellau dŵr yn byrstio. Gallai rhai cynghorion syml eich helpu i leihau'r risg.

Cynghorion ymarferol:

- Chwiliwch ble mae'r stopfalf a'r blwch ffiws yn eich cartref – gwnewch yn siŵr bod y stopfalf yn symud yn rhydd. Fel arfer mae'r stopfalf o dan y sinc yn y gegin ac mae'r blwch ffiws mewn cwpwrdd yn y cyntedd. Os hoffech gymorth i ddarganfod rhain cysylltwch â ni wrth ffonio 0303 040 1998.
- Cadwch olwg ar unrhyw dapiau yn dripian ac adroddwch am unrhyw ddiffygion wrth Newydd ar 0303 040 1998.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych yswiriant. Mae miloedd o gartrefi heb yswiriant cynnwys a gall pibell yn byrstio ddifetha eich dodrefn ac eitemau arbennig. Nid yw Newydd yn trefnu nac yn darparu yswiriant ar gyfer eich eiddo personol.

Os bydd rhybudd o dywydd garw:

- Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o fwyd a dŵr yn y tŷ – yn enwedig os oes perygl i chi gael eich cau i mewn gan eira
- Cadwch gyflenwad o ganhwyllau a matsys rhag ofn i'r trydan ddiffodd
- Gwisgwch haenau o ddillad i gynnal gwres eich corff

Os yw trychineb yn digwydd a bod y bibell ddŵr yn byrstio:

- Diffoddwch y dŵr wrth y prif gyflenwad ar unwaith a gwagio'r system trwy droi pob tap dŵr ymlaen
- Dywedwch wrth Newydd neu dewiswch y contractwr brys allan o oriau swyddfa trwy ffonio 0303 040 1998 cyn gynted â phosibl
- Os yw'n bosibl cadwch yr ystafelloedd yn gynnes a gadael aer cynnes i gylchdroi. Agorwch y ffenestri fel bod aer llaith yn gallu dianc
- Sychwch y carpedi a'r deunyddiau ond peidiwch â chodi carpedi sydd wedi'u ffitio os nad oes rhaid, neu gallant grebachu.

Aros oddi cartref?

- Gadewch i'r gwres canolog redeg yn barhaus ar 5 gradd canradd neu trefnwch bod y system wres canolog yn cael ei gwagio.
- Hyd yn oed os yw eich llofft wedi'i insiwleiddio ystyriowch agor drws y llofft fel bod aer cynnes yn gallu mynd i mewn yno.
- Gofynnwch i ffrind neu gymydog da gadw golwg ar eich eiddo tra byddwch i ffwrdd.

Peryglon gwenwyn carbon monocsid

Beth ydy gwenwyn carbon monocsid?

Gall gwenwyn carbon monocsid (CO) fod yn farwol ac achosi niwed parhaol i'ch iechyd. Nid oes arogl na blas arno. Gall ladd yn gyflym iawn os oes llawer ohono.

O ble y daw carbon monocsid?

Gall carbon monocsid gael ei ryddhau o unrhyw beiriant llosgi tanwydd nad yw wedi ei gynnal a'i gadw yn gywir yn cynnwys boeleri, poptai, gwresogyddion, sychwyr dillad nwy, gwresogyddion dŵr poeth a lle tân.

Pwy sydd mewn perygl o gael eu gwenwyno?

Gall unrhyw un gael eu gwenwyno gan garbon monocsid. Mae rhai unigolion mewn mwy o berygl na'i gilydd yn cynnwys plant ifanc, pobl hŷn, myfyrwyr, pobl ag anaemia a rhai gyda chlefydon y galon a'r ysgyfaint. Gall carbon monocsid beryglu babanod menywod beichiog.

Beth ydy symptomau gwenwyn carbon monocsid?

Mae symptomau yn cynnwys cur pen, pendro, blinder a theimlo'n sâl. Gellir camgymryd rhai o'r symptomau am ffliw a feirysau cyffredin eraill, neu hyn yn oed gwenwyn bwyd.

Beth i'w wneud os oes gennych symptomau gwenwyn CO

Agorwch y ffenestri ac ewch allan i'r awyr iach ar unwaith. Os yw'r symptomau yn ddifrifol dylech fynd at eich meddyg ar unwaith neu i'r adran damweiniau a brys.

Cysylltwch â CO Awareness ar **0771 589 9296**, e-bost **COawareness@COvictim.org** neu ewch ar eu gwefan **www.COvictim.org**

Defnyddiwch y rhestr hon i wirio am allyriadau carbon monocsid

1. Edrychwch ar liw fflamau eich offer. Os yw'n oren, gall fod problem. Beth bynnag ydy'r lliw dylech gael gwirio eich offer nwy bob blwyddyn.
2. Dylech gael peiriannydd cymwysedig cofrestredig gydag un o'r cyrff canlynol i wirio eich offer:
   - BESCA (tanwydd solet ac olew) > ffoniwch **0800 652 5533**
   - Gas Safe Register (nwy) > ffoniwch **0800 408 5500**
   - HETAS Ltd (tanwydd solet) > ffoniwch **01462 634721**
   - NAPIT (tanwydd solet ac olew) > ffoniwch **0870 444 1392**
   - OFTEC (olew) > ffoniwch **0845 658 5080**
3. Gwnewch yn siŵr nad yw eich simdde/ffliw wedi blocio. Os oes gennych adar yn nythu yno, symudwch y nyth a gosodwch orchudd i atal yr adar rhag nythu yno eto. Mae'n bwysig iawn gwirio eich simdde/ffliw.
4. A oes gennych gril lefel llygad? Gall y rhain fod yn neilltuol o beryglus felly gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio yn iawn.
5. A oes digon o awyru yn eich cartref? Gwiriwch nad oes unrhyw friciau aer wedi blocio. Os yw eich ffenestri yn rhai gwydr dwbl efallai nad oes digon o aer ar gyfer eich peiriannau/offer a gallant gynhyrchu carbon monocsid.
6. Prynwch larwm carbon monocsid sydd yn gallu adnabod lefelau isel o'r nwy. Rhaid iddo fod o safon cymeradwy BS EN 50291:2001. Gwiriwch y batri a'r synhwyrydd yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn dal i weithio.

O fewn eich Cytundeb Tenantiaeth mae'n rhaid i chi adael ein Peiranwyr Boeleri Nwy Newydd, Tony a Keith i'ch cartref i gwblhau profion boeler. Os na fyddwch yn gadael i ni ddod i'ch cartref gallech ddioddef gwenwyn carbon monocsid ac efallai fe fyddem yn gweithredu o fewn telerau eich Cytundeb Tenantiaeth.

Ffoniwch Newydd ar 0303 040 1998 i weld pryd y mae'n amser i chi gael gwirio eich boeler.

Cynghorion Scott Tandy ar sut i gadw'n gynnes y gaeaf hwn

Gall cadw'n gynnes dros y gaeaf atal anwydau, ffliw neu broblemau iechyd mwy difrifiol fel pneumonia. Mae Scott, ein Cydlynydd Cynllun Lloches yn Llys Gwyn James yn dweud bod pethau syml yn gallu eich helpu:

Cael pigiad ffliw
Gallwch gael pigiad ffliw am ddim gan eich meddyg teulu os ydych dros 65 oed, os oes gennych gyflwr iechyd hir dymor neu os ydych yn brif gynhaliwr person oedrannus neu anabl. Ni fydd y pigiad ffliw yn rhoi ffliw i chi, myth yw hynny. Cysylltwch gyda'ch meddyg teulu, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 neu ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk am help a chyngor.

Cadw'n brysur:
Mae ymarfer yn gwneud i'r gwaed lifo ac yn eich helpu i gadw'n gynnes. Mae Age Cymru yn rhedeg rhaglen Cerdded Nordig i'ch helpu i gadw'n heini a gwella eich cydbwysedd, ffoniwch 02920 431555 neu e-bostiwch ageingwell@agecymru.org.uk. Does dim rhaid i chi ymuno â'ch campfa leol i gadw'n heini, bydd gwneud ychydig o waith tŷ yn helpu i'ch cadw'n gynnes.

Cadw'ch cartref yn gynnes:
Yn gyffredinol 16C (61F) yw'r tymheredd i gynhesu eich cartref a dylid codi hyn i 18-21C (64-70F) yn eich ystafell fyw. Yn ystod tywydd oer iawn mae'n syniad da cynnau'r gwres ynghynt a chynhesu eich ystafell wely cyn mynd i'r gwely yn hytrach na throi'r thermostat i fyny.

Insiwleiddio eich cartref:
Caewch y ffenestri, caewch y llenni, defnyddiwch ystaelloedd llai a seliwch eich drws gan y bydd hynny yn cadw'r gwres yn hirach yn eich cartref. Os oes gennych broblem gyda'ch system wresogi ffoniwch Newydd ar 0303 040 1998. Hwn hefyd yw'r rhif ar gyfer gwaith trwsio brys ac mae ar gael 24 awr y diwrnod.

Haenau o ddillad:
Y ffordd orau o gadw'n gynnes yw trwy wisgo llawer o haenau o ddillad tenau yn hytrach nag un eitem mawr. Mae gwisgo sliperi yn y tŷ yn ffordd dda iawn o gadw'n gynnes a gwisgwch het neu sgarff ar y pen yn yr awyr agored gan fod llawer o wres yn cael ei golli trwy'r pen.

Bwyta'n gywir:
Mae eich corff angen bwyd i gadw'n gynnes; ceisiwch fwyta diet cytbwys i gynnwys amrediad o brydau bwyd poeth, ffrwythau a llysiau a gall diodydd poeth helpu hefyd.

Mae Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn yn ymgyrch gan Lywodraeth Cymru wedi'i chydlynu gan Age Cymru mewn partneriaeth gydag amrediad o gyrff cenedlaethol a lleol.

Am ragor o wybodaeth
Ewch ar wefan Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn **www.kwtw.org.uk**, cysylltwch gyda'r Tîm Heneiddio'n Iach yn Age Cymru ar **ageingwell@agecymru.org.uk** neu ffoniwch **02920 431555**.

Cyhoeddi enw eich aelod etholedig newydd ar y bwrdd...

Cyhoeddwyd canlyniadau etholiadau tenantiaid yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi. Cafodd yr etholiad ei rhedeg gan y Gwasanaethau Diwygio Etholiadol a phleidleisiodd 19.2% o denantiaid dros y tri ymgeisydd.

Y buddugol oedd Soraya Cordle a ymunodd â'r Bwrdd ar gyfer ei chyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2011. Mae Soraya yn byw yn y Barri a bydd yn ymuno gyda Lyn Bond, Linda Chamberlain a Phil Pearn fel aelodau etholedig tenantiaid ar y Bwrdd. Llongyfarchiadau i Soraya!

Mae un rhan o dair o Fwrdd Newydd yn cael eu hethol gan yr holl denantiaid mewn etholiad. Mae pob aelod etholedig tenantiaid ar y Bwrdd yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd cyn gorfod sefyll etholiad eto.

Os oes gennych ddiddordeb mewn sefyll ar gyfer etholiad y flwyddyn nesaf ac eisiau gwybod rhagor am beth y mae'n ei olygu cysylltwch gyda Paul Roberts, Prif Weithredwr ar **02920 005411** neu **paul.roberts@newydd.co.uk**

Bydd ceisiadau am ymgeiswyr ar gyfer etholiad y flwyddyn nesaf yn cael eu hanfon allan yn y gwanwyn 2012.

Ac mae'r wobr o £50 yn mynd i...

Llongyfarchiadau i Mrs Bird yn y Barri am ennill £50 trwy gofrestru ei ffôn gyda ni trwy neges destun. Dywedodd "Rwyf wrth fy modd, dwi byth yn ennill dim! Rwy'n edrych ymlaen at ei wario ar yr wyrion dros y Nadolig."

Er mwyn cofrestru eich ffôn symudol gyda Newydd fel bod modd i chi dderbyn negeseuon testun, tecstiwch **REGISTER** ac yna eich enw a llinell gyntaf eich cyfeiriad i **07539 115115** a gallech ennill **£50**!

Ydych chi'n cael problemau gydag ymddygiad gwrth gymdeithasol?

Mae ein Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol yma i'ch helpu

Gall dioddef ymddygiad gwrth gymdeithasol greu pryder a gofid. Mae Newydd yn sylweddoli hynny ac mae wedi recriwtio grŵp bychan o denantiaid fel aelodau Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol.

Y grŵp

Mae holl aelodau'r Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol yn denantiaid Newydd. Maent yn gyfeillgar, yn gydymdeimladol ac maent wedi derbyn hyfforddiant dwys. Mae'r gefnogaeth y maent yn ei gynnig am ddim ac ar gael i bob tenant.

Sut y byddant yn fy nghefnogi?

Bydd yr aelodau yn gwrando arnoch, yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiadau a gallant gynnig cyrff eraill i'ch helpu os oes angen. Bydd Newydd yn datrys eich problem trwy ddefnyddio gweithdrefnau ymddygiad gwrth gymdeithasol tra byddwch yn derbyn y gefnogaeth hon.

Sut mae'n gweithio?

I ddechrau mae angen i chi adrodd am eich problem wrth Newydd. Yna bydd eich Swyddog Tai yn ymchwilio i'ch achos. Gyda'ch caniatad chi bydd y Swyddog Tai yn eich cyfeirio at y Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol os yw'n teimlo bod eich achos yn addas.

Yn dilyn eich cyfeirio byddwch yn cael cyfarfod dau aelod o'r grŵp naill ai mewn canolfan neu swyddfa Newydd. Mae croeso i chi ddod a ffrind neu berthynas gyda chi a gellir trefnu cyfarfodydd eraill os ydych yn dymuno hynny.

Mewn rhai amgylchiadau gellid ystyried lleoliad arall addas. Os ydych yn teimlo y gallech elwa oddi wrth y gwasanaeth hwn mae croeso i chi gysylltu â Newydd ar **0303 040 1998** neu e-bostio **asb@newydd.co.uk**

Hoffech chi ddod yn aelod hyfforddedig o'r Grŵp Cefnogi Tenantiaid Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol ? Galwch y Tim Partneriaeth Cymunedol ar **0303 040 1998** neu e-bostiwch **asb@newydd.co.uk**.

Gweithgarwch codi arian yn Newydd

Llongyfarchiadau i'n Prif Weithredwr, Paul Roberts a seiclodd 330 milltir dros bedwar diwrnod o Gaerdydd i Baris i godi bron i £4,000 ar gyfer Shelter Cymru ym mis Medi.

Paul Roberts

Fe wnaeth Scott Tandy a Matthew George hefyd godi cannoedd o bunnoedd i Barnados trwy redeg Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar.

A llongyfarchiadau i'n Uwch Dîm Rheoli am gymryd rhan yn ein 'Bush Tucker Trial' i godi arian ar gyfer Plant mewn Angen. Er gwaethaf y poenau stumog oherwydd cymysgedd o ddiodydd fe wnaeth eu hymdrechion yn ogystal â diwrnod gwisgo dillad hamdden i staff godi £178. Llongyfarchiadau i bawb!

Scott Tandy

Staff Newydd o gwmpas yr ystadau

Ar 15 Tachwedd aeth staff Newydd i ymweld ag ystadau yn Rhydyfelin a'r Barri yn eu siacedi amlwg a'u chodwyr sbwriel.

Bu'r staff wrthi'n casglu sbwriel o gwmpas yr ystadau a chwblhau arolwg o'r ystadau gan ofyn i chi ateb arolwg ar ein canolfannau cymunedol. Fe wnaethom fwynhau cyfarfod tenantiaid wrth eu gwaith beunyddiol ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ddigwyddiad rheolaidd fel bod modd i chi sgwrsio gyda ni am yr hyn sydd yn bwysig i chi.

Eich pryderon a'ch cwyn

Yn ystod y llynedd fe wnaethom ddelio gyda 73 o gwynion ac mae hynny wedi cynyddu o'i gymharu â 64 y flwyddyn flaenorol. Caiff pob cwyn ei thrafod yn ôl gweithdrefn sefydlog a byddwn yn ceisio ymateb yn llawn o fewn deng diwrnod gwaith.

Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn oddi wrthym gallwch hefyd gyfeirio eich cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os oes mater pwysig wedi codi gall yr Ombwdsmon gyhoeddi eu canfyddiadau mewn adroddiad. Yn ystod 2010/11 fe wnaeth yr Ombwdsmon ddelio gyda 119 o gwynion am gymdeithasau tai. Roedd dau gwyn yn ymwneud â Newydd; cafodd un ei wrthod oherwyddd nad oeddem wedi cael cyfle i ddatrys y broblem yn gyntaf. Cafodd yr ail ei gau oherwydd ein bod eisoes wedi cydnabod camgymeriad ac wedi cymryd camau priodol i gywiro pethau. Ni chafodd yr un o'r cwynion eu cyhoeddi fel adroddiadau gan yr Ombwdsmon.

Beth oedd y cwynion i Newydd?

Ymddygiad gwrth gymdeithasol	6
Tai (materion tenantiaeth, gwasanaeth cwsmer a rhent)	23
Cynnal a chadw (gwaith trwsio, contractwyr a gwasanaeth cwsmer)	34
Materion eraill	10

Eleni fe wnaethom dderbyn cwynion gan bobl oedd heb dderbyn cartref. Mae hyn yn arwydd o'r prinder o lety addas o'i gymharu â'r nifer fechan o gartrefi yr ydym yn gallu eu darparu.

Roedd y categori ‘materion eraill’ yn cynnwys materion a godwyd gan berchnogion cartrefi a lesddeiliaid sydd yn byw ar ein hystadau ac yn anhapus gyda’r gwasanaethau y maent yn talu amdanynt. O ganlyniad i hyn rydym wedi cynnal arolwg neilltuol er mwyn derbyn adborth. Defnyddir yr adborth hwn mewn adolygiad o wasanaethau i’r grŵp hwn o gwsmeriaid.

Fe wnaethom dderbyn llawer o gwynion am systemau gwresogi yn ystod y cyfnod eithriadol o oer y gaeaf diwethaf pan oedd adnoddau dan straen. Rydym wedi trafod hyn gyda’n contractwyr ac yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn well y gaeaf hwn.

Polisi cwynion newydd
Gellir weld y Polisi Cwynion ar ein gwefan yn www.newydd.co.uk ac mae ar gael dim ond gofyn amdano. Un prif newid yw na fydd cam apeliadau gan y bydd yn ofynnol i ni ymchwilio yn drylwyr i gwynion ac ymateb unwaith yn unig. Os yw’r achwynwyr yn parhau yn anhapus bydd rhaid iddynt gysylltu gyda’r Ombwdsmon a fydd yn penderfynu gweithredu ymhellach ai peidio.

ion

Gallwch godi pryder neu gwyn trwy siarad gydag unrhyw aelod o’r staff, ei adrodd ar y wefan, trwy e-bost neu ar y ffôn.

Sioe Freddie Starr

adroddiad Lin Chamberlain, Llys Elis Fisher, y Barri

Aeth criw ohonom i weld Freddie Starr yn y Neuadd Goffa yn y Barri ar Hydref 11, ac am noson!

Roedd Freddie fel arfer yn ddigrif gan roi perfformiad gwych ar ddechrau’r sioe. Yn ystod hanner cyntaf y sioe daeth comedïwr o Lerpwl i ymuno ag ef ar y llwyfan ac roedd yn dda iawn ac yna cantores gyda llais gwych. Ar ôl yr egwyl daeth Freddie yn ôl ar y llwyfan ac am weddill y sioe roedd y gynulleidfa yn llwyr yn ei ddwylo. Credaf y gallaf siarad dros y gweddill a dweud ein bod wedi cael amser ardderchog a llond bol o chwerthin. Roedd y sioe i fod i orffen am 9.30yh ond wrth adael fe wnaethom sylweddoli ein bod wedi cael awr ychwanegol o adloniant. Roedd pawb ar eu traed ar y diwedd ac roedd y gymeradwyaeth yn y theatr yn fyddarol.

Diolch i Newydd am y tocynnau, fe wnaethom fwynhau ein hunain yn fawr iawn. Croeso’n ôl Freddie, cystal ag erioed!

Diwrnod ym mywyd Sarah Davies

Swyddog Tai yn ein swyddfa yn y Drenewydd

Hafan Cymru
Atal Camdriniaeth • Hybu Annibyniaeth
Preventing Abuse • Promoting Independence

Mae diwrnod ym mywyd swyddog tai yn amrywiol ac felly fe wnaethom dreulio diwrnod gyda Sarah i weld beth y mae'n ei wneud yn ystod diwrnod arferol.

7.25yb: gadael cartref ac ymladd trwy'r traffig i gyrraedd y Drenewydd mewn pryd; mae'r traffig yn rhyfeddol o dda heddiw!

8.30 – 9.00yb: Cyrraedd y swyddfa yn St Davids House, darllen fy negeseuon e-bost a ffôn, sgwrs gyda Nicola sydd yn gweithio gyda mi a sicrhau bod y swyddfa ar agor am 9am.

9.00 – 9.30yb: Gan fy mod yn mynd i'r llys y bore yma sicrhau bod y gwaith papur yn gyflawn a pharatoi ffeil y tenant.

11.00yb: Gadael y swyddfa i deithio i'r Trallwng ar gyfer gwrandawiad am 12.00pm

1.00yp: Cyrraedd yn ôl i'r swyddfa ar ôl y gwrandawiad a aeth yn dda, a gobeithio y bydd y broblem o ddyledion rhent yn cael ei datrys yn fuan.

1.00 – 1.30yp: Mae'r swyddfa ar gau dros ginio ac mae Nicola a minnau yn cael sgwrs i ddal i fyny. Mae'n dweud bod tenant eisiau cyngor ar daliadau rhent i wneud y swm yn haws i'w dalu. Byddaf yn galw i weld y tenant yr wythnos hon.

1.30 – 2.00yp: Mynd i ystad St Mary's Close i gynnal arolwg, er enghraifft sicrhau bod yr ardaloedd cymuned yn daclus a bod y gwair wedi'i dorri, nad oes unrhyw graffiti ac nad oes dim wedi torri na phroblemau gyda mynediad.

2.30yp: Yn ôl yn y swyddfa i brosesu arolwg Ystad St Mary's Close.

3.00yp: Cyfarfod gyda Kate, Gweithiwr Cefnogi yn Hafan Cymru i drafod anghenion cefnogi tenant a gweld beth y gallwn ei wneud gyda'n gilydd i wella eu bywyd cartref.

3.30yp: Darllen negeseuon e-bost a ffonio tenantiaid sydd ag ymholiadau.

3.45yp: Ffonio tenant i drafod ymddygiad gwrth gymdeithasol i weld a yw'r meddyginiaeth a roddwyd yn ddiweddar i'w gymydog wedi helpu.

4.00yp: Derbyn taliad rhent dros y ffôn a pharatoi i fynd i weld tenantiaid

4.15 – 5.00yp: Ymweld â thenantiaid ar yr ystad i ateb pob math o gwestiynau…. Ac yna gartref yn barod i ymlacio!

Er mwyn siarad â Nicola neu Sarah ewch i'n swyddfa yn St Davids House, Heol Eglwys Newydd, ffoniwch **0303 040 1998** neu ebostiwch **ymholiadau@newydd.co.uk**

Arglwydd Touhig gyda thenantiaid

Tenantiaid yn cyflwyno deiseb budd-daliadau i Dŷ'r Arglwyddi

Adroddiad gan John Phillips, tenant Newydd a Chadeirydd y Panel Cymuned

Ar ddydd Mawrth 13 Medi fe deithiais i San Steffan gyda thenantiaid eraill Newydd; Lyn Bond, Linda Chamberlain ac Ellen Morgan yn ogystal â staff o Tai Cymunedol Cymru a thenantiaid o bump o gymdeithasau tai eraill. Diben yr ymweliad oedd cyflwyno deiseb yn erbyn y toriadau arfaethedig yn y Mesur Diwygio Lles oedd yn cael ei drafod y diwrnod hwnnw yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Derbyniodd yr Arglwydd Touhig, Llafur, y ddeiseb oddi wrthym y tu allan i San Steffan ac yn ddiweddarach fe'i cyflwynodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ef oedd yr 1732 person i'w llofnodi. Mae cyn AS Islwyn wedi labelu'r cynigion cyfredol fel '…ymosodiad ar y tlotaf yn ein gwlad,' ac yn cwestiynu blaenoriaethau'r Llywodraeth yng ngoleuni sylwadau yn awgrymu eu bod yn fodlon torri'r dreth 50c tra 'bod y rhai sydd prin yn medru goroesi yn gorfod derbyn toriad yn y gefnogaeth sylfaenol y maent ei angen i allu byw'.

Ar ôl cinio fe wnaethom ymuno â'r Arglwydd Touhig ac aethom i Oriel Dieithriaid Tŷ'r Arglwyddi er mwyn ei weld yn cyflwyno'r ddeiseb i'r Tŷ. Cafodd y ddeiseb dderbyniad da, nifer o 'clywch, clywch' a dechreuodd y ddadl. Gan fod yr eisteddiad i fod i orffen am 22.30 buom yn gwrando ar y ddadl am awr neu ragor a gadael yr oriel wedyn i droi am adref.

Bu'r diwrnod yn gofiadwy a diddorol. I mi y digwyddiad mwyaf arwyddocaol oedd cael y cyfle i ymweld â Thŷ'r Arglwyddi a gwrando ar y ddadl. Y gobaith yw y bydd cyflwyno'r ddeiseb a'r cyhoeddusrwydd a chyfranogiad tenantiaid yn dylanwadu ar y Mesur Diwygio Lles. Rwy'n teimlo bod rhaid i ni fel tenantiaid barhau i fynegi barn; os na wnawn hynny ni chaiff ein barn ei ystyried.

Er mwyn cael gwybod beth sydd yn digwydd gyda'r Mesur Diwygio Lles ewch i wefan Tai Cymunedol Cymru ar **www.chcymru.org.uk** neu ffoniwch nhw ar **0300 303 1073** neu e-bost **enquiries@chcymru.org.uk**

Newyddion diweddaraf am dai lloches

Llwyddiant ymgyrch ffyrdd tenantiaid Elis Fisher

Penderfynodd Enid Goodman wneud rhywbeth am y Ffordd Buttrills beryglus yn y Barri ym mis Mawrth eleni.

Yn ogystal â thenantiaid eraill yn Llys Elis Fisher, mae Enid yn gorfod croesi Ffordd Buttrills i fynd i'r siopau lleol, Swyddfa'r Post a Swyddfeydd y Cyngor yn y Barri. Ond roedd tro yn y ffordd ac roedd yn golygu bod rhaid iddynt edrych i sawl cyfeiriad wrth geisio croesi – damwain yn aros i ddigwydd yn eu barn nhw. Daeth Enid a'r tenantiaid eraill yn Llys Elis Fisher at ei gilydd i wneud rhywbeth am hyn.

Siaradodd Enid gyda Jane Hutt AC yn y digwyddiad 'Are you on board?' y gwnaeth Newydd ei gydlynu yn Neuadd Goffa'r Barri ym mis Mawrth. Roedd y digwyddiad hwn wedi'i nodi yn rhifyn y Gwanwyn o In View.

Dywedodd Enid wrth Jane Hutt AC, "Rydym yn cael ein dal yng nghanol y ffordd oherwydd bod traffig yn dod o bob cyfeiriad. Os na chaiff hyn ei ddatrys gallai arwain at ddamwain ddifrifol."

Dywedodd Jane wrth Enid i ysgrifennu llythyr ati hi, at y Cynghorydd Margaret Alexander a hefyd at Dîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Bro Morgannwg i drafod y man croesi peryglus. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Awst lle y mynegodd y tenantiaid eu pryderon.

Llwyddiant!

Yn dilyn ail gyfarfod hysbysodd Cyngor Bro Morgannwg y tenantiaid y byddant yn gweithredu trwy godi wal dros dro ar ganol Ffordd Buttrills er mwyn atal troi i'r dde a helpu cerddwyr i groesi. Dywedodd y Tîm Diogelwch y Ffordd eu bod yn gobeithio y byddai newid parhaol i'r ffordd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Dywedodd Enid, "Rydym mor falch or canlyniad hwn. Fe fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i ni a byddwn yn teimlo'n llawer diogelach. Diolch i Jane Hutt AC, y Cynghorydd Margaret Alexander, Tîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Bro Morgannwg a Sara Reid-Danks Cydlynydd ein Cynllun am eu help."

Llongyfarchiadau i Enid a thenantiaid Llys Elis Fisher ar eu cyflawniad!

Llys Phillipa Freeth yn croesawu ysgol leol

Mae tenantiaid cynllun tai lloches Llys Phillipa Freeth yn y Barri yn edrych ymlaen at ymweliad Côr Ysgol Gynradd Holton Road. Bydd yr ysgol leol yn perfformio Cyngerdd Carolau ar 14 Rhagfyr. Mae Cyngerdd Carolau Ysgol Holton Road wedi dod yn arferiad yn y cynllun dros y blynyddoedd diwethaf ac mae pawb yn Llys Phillipa Freeth yn edrych ymlaen at groesawu'r plant ac ymuno yn hwyl yr ŵyl.

Newyddion diweddaraf o Alltwen

Ym mis Hydref aeth preswylwyr cynllun tai lloches Alltwen yn Abernant am bryd o fwyd i Westy Ty Newydd ym Mhenderyn a mwynhau trip i ganolfan bywyd gwyllt yn Libanus. Daeth siop emwaith Wendy i ymweld â'r cynllun hefyd ac roedd yn boblogaidd iawn; gobeithio y bydd yn galw eto cyn hir.

Cyn hir cynhelir dosbarthiadau ymarfer Ymestyn yn Alltwen. Mae'r rhain am ddim i'r holl denantiaid sydd yn dymuno ymuno. Cysylltwch â David Thomas Cydlynydd y Cynllun os oes diddordeb gennych.

Llys Gwyn James ym Mhenarth yn derbyn £2036 gan y Loteri Genedlaethol

Bu Pwyllgor Cymdeithasol Llys Gwyn James yn llwyddiannus gyda'u cais am arian o 'Gronfa'r Loteri Fawr' y Loteri Genedlaethol a derbyn £2036 er mwyn helpu i gefnogi rhyngweithio cymdeithasol ymysg y tenantiaid a'r gymuned leol.

Daeth y llwyddiant ar ôl clywed am y £4000 a dderbyniodd Llys Arthur Davies gan Gronfa'r Loteri Fawr er mwyn prynu tŷ gwydr, sied, meinciau a dodrefn patio ar gyfer y cynllun yn y Barri yn gynharach eleni.

Mae hyn yn golygu prysurdeb mawr i Bwyllgor Cymdeithasol Llys Gwyn James wrth iddynt brynu bwrdd pŵl, cyfrifiadur Wii, cyfrifiadur pen desg, taflunydd a sgrin taflunydd cyn i'r tywydd oer gyrraedd.

Dywedodd Phillip Playle, aelod o Bwyllgor Cymdeithasol Llys Gwyn James, 'Roedd y bwrdd pŵl a'r cyfrifiadur pen desg, yn ddewisidau poblogaidd gan bawb yn y cynllun oherwydd ein bod yn teimlo y gall eitemau fel hyn annog tenantiaid i ddod i'r lolfa ac ymuno yn yr hwyl.'

Twrnamaint Chwarae Pŵl yn Llys Arthur Davies

Ar ôl derbyn grant o £250 oddi wrth gronfa gymunedol Newydd mae gan Llys Arthur Davies fwrdd pŵl newydd sbon yn lle'r hen un. Maent yn bwriadu cynnal twrnamaint gyda chynlluniau lloches eraill yn fuan iawn!

Bob dydd Mercher am 11am mae Llys Arthur Davies yn cynnal bore coffi ac mae croeso i bawb yno. Dim ond 50c am baned o goffi neu de a theisen neu fisged. Galwch heibio!

Newyddion diweddaraf gan y

Tîm Partneriaeth Cy

Craffter tenantiaid!

Mae chwech tenant wedi dechrau eu hyfforddiant Visibly Better RNIB i ddod yn Aseswyr Cynllun. Mae'r hyfforddiant wedi bod yn bleserus iawn ac eisoes wedi codi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae ein tenantiaid sydd â phroblemau golwg yn eu wynebu'n ddyddiol.

Pwy ydy'r ferch yna?

Croeso i Bethanie Morgan ein Gweithiwr Partneriaeth Cymunedol sydd yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd a helpu'r tîm gyda phrosiectau. Os oes gennych unrhyw ymholiad yn berthynol i gyfranogiad tenantiaid, ffoniwch Bethanie ar 02920 005478.

Pwy enillodd?

Cynhaliodd ANTRA (Cymdeithas Preswylwyr Tenantiaid Newydd Aberaman) gystadleuaeth lliwio yn eu fflat cymunedol ar gyfer Calan Gaeaf. Bu'r ymateb i'r gystadleuaeth yn ardderchog ac roedd y safon yn hynod o uchel hefyd. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr a dderbyniodd dwb o losin yr un – Owen, Adam and Thomas.

Ar y marc!

Cynhaliodd ANTRA (Cymdeithas Preswylwyr Tenantiaid Newydd Aberaman) brosiect pêl droed rhwng cenedlaethau i annog yr hen a'r ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol a gwirfoddoli. Roedd yr holl chwaraewyr yn gwisgo gwisg ffansi ac yn derbyn medalau am gymryd rhan a rhoddwyd cwpan i'r tîm buddugol.

Am ffair!

Bu ffair Sialens Ieuenctid Newydd yng Nghanolfan Ilan, Rhydyfelin yn llwyddiant mawr ym mis Medi gan godi £132.50 tuag at weithgaredd ieuenctid yn y dyfodol.

Yn gweddu i chi Syr! Gwasanaethau wedi'u teilwra i denantiaid.

Diolch i Sion Jones, myfyriwr sydd ar leoliad gyda ni dros dro, a fu'n ein helpu i ymchwilio i broffilio arferion gorau tenantiaid a datblygu holiadur a gaiff ei anfon at yr holl denantiaid y flwyddyn nesaf i'n helpu i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.

munedol

Craffu ar y craffwyr!

Ymunodd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru â'n Grŵp Craffu Tenantiaid ar gyfer ymweliad arfer gorau ym mis Tachwedd – roeddent yn falch o weld y cynnydd y mae'r grŵp wedi'i wneud gan adael gyda llawer o syniadau am sut i ddatblygu craffu tenantiaid yn ei cymdeithas eu hunain.

Gwledd y Gwrachod!

Cynhaliodd GTRA eu disgo Calan Gaeaf blynyddol yng Nghanolfan Ilan, Rhydyfelin – daeth nifer dda yno a chafodd pawb amser gwych!

Brwydro'n erbyn gormodedd y Nadolig!

Os ydych yn byw ym Mro Morgannwg ac eisiau ffitio i mewn i'r ffrog fach ddu ar gyfer parti Nadolig, neu eisiau rhoi'r gorau i ysmygu fel adduned Blwyddyn Newydd neu eisiau gwneud newid cadarnhaol i'ch ffordd o fyw, cysylltwch â'n Hyfforddwyr Iechyd a Lles – Hazel ar 07584 501216 neu Adele ar 07974 956751. Gallan ddod i'ch gweld a'ch helpu i ddatblygu cynllun i'ch helpu i gyrraedd eich nod!

Yn galw ar bob brenhines ddrama!

Os ydych yn byw ym Maes yr Eglwys, Glynnedd ac os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â chlwb drama amatur a gynhelir yng Nghanolfan Gymunedol Church Meadow ffoniwch 01639 721408 os gwelwch yn dda. Mae croeso i blant ac oedolion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch oddi wrth eich Tîm Partneriaeth Cymunedol

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymrodd ran ac a'n helpodd i wella ein gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf – rydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth gyda chi yn 2012!

Arolwg Tenantiaid 2011

Diolch yn fawr i bawb a gymrodd ran yn Arolwg Tenantiaid eleni. Cawsom ymateb ENFAWR eleni – 613 o arolygon wedi'u hanfon yn ôl a dros 25% o denantiaid yn ymateb. Mae hyn yn DDWBL y nifer o arolygon o'i gymharu â'r llynedd.

10 enillydd arolygon wedi'u cwblhau eleni, yn ennill £100 yr un yw:

- Ms Y, Pontypridd
- Mr D, Barri
- Mr C, Barri
- Ms C, Barri
- Ms D, Beddau
- Ms T, y Drenewydd
- Ms S, Newpark
- Ms B, Penarth
- Mr W, Barri
- Ms N, Penarth

Ar y cyfan mae boddhad gyda Newydd yn parhau yn uchel ar 87% er bod hyn ychydig yn is na'r llynedd (89%). Byddwn yn trafod y rhesymau dros hyn cyn bo hir gyda thenantiaid ar y Panel Cymunedol.

Cwestiynau boddhad cyffredinol

Pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan Newydd

48% bodlon iawn
39% gweddol fodlon
4% dim un o'r ddau
6% gweddol anfodlon
3% anfodlon iawn



Ansawdd cyffredinol eich cartref

46% bodlon iawn
42% gweddol fodlon
3% dim un o'r ddau
7% gweddol anfodlon
2% anfodlon iawn



Y gymdogaeth fel lle i fyw

46% bodlon iawn
37% gweddol fodlon
6% dim un o'r ddau
7% gweddol anfodlon
4% anfodlon iawn



Rhent fel gwerth am arian

49% bodlon iawn
40% gweddol fodlon
8% dim un o'r ddau
2% gweddol anfodlon
1% anfodlon iawn



Tâl gwasanaeth fel gwerth am arian

37% bodlon iawn
37% gweddol fodlon
16% dim un o'r ddau
5% gweddol anfodlon
4% anfodlon iawn



Eleni mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno 'Canlyniadau Cyflwyniad' y gall tenantiaid farnu perfformiad Newydd yn eu herbyn a nodi meysydd sydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer gwelliant. Mae'r cwestiynau canlynol o'r Arolwg Tenantiad yn gofyn yn benodol am eich barn am wasanaethau Newydd yn erbyn y Canlyniadau Cyflwyniad:

Sut ydych chi'n graddio Newydd o ran:

Bod yn fusnes ariannol cadarn a dichonadwy

56% Da
31% Iawn
1% Gwael
12% Dim yn gwybod



Adeiladu ac adnewyddu cartrefi i ansawdd da

54% Da
31% Iawn
8% Gwael
72% Dim yn gwybod



Darparu gwasanaethau teg ac effeithlon i berchnogion

47% Da
28% Iawn
5% Gwael
19% Dim yn gwybod



Byw gwerthoedd sector cyhoeddus trwy gynnal ein materion yn onest a gydag integriti, ac yn arddangos llywodraethu da trwy ein hymddygiad

46% Da
32% Iawn
4% Gwael
18% Dim yn gwybod



Ymgysylltu gydag eraill i wella a gwneud y mwyaf o ganlyniadau ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned

47% Da
37% Iawn
3% Gwael
13% Dim yn gwybod



Trwsio a chynnal a chadw cartrefi mewn dull effeithlon, amserol a chost effeithiol

49% Da
30% Iawn
16% Gwael
5% Dim yn gwybod



Gosod y bobl sydd eisiau ein gwasanaethau wrth galon ein gwaith – rhoi'r dinesydd yn gyntaf

44% Da
33% Iawn
7% Gwael
16% Dim yn gwybod



Sicrhau bod ein pwrpas yn glir a'n bod yn cyflawni'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud – gan wybod pwy sydd yn gwneud beth a pham

48% Da
33% Iawn
5% Gwael
14% Dim yn gwybod



Gosod cartrefi mewn dull teg, tryloyw ac effeithiol

51% Da
31% Iawn
8% Gwael
10% Dim yn gwybod



Rheoli ein cartrefi yn effeithiol

52% Da
36% Iawn
7% Gwael
5% Dim yn gwybod



Unwaith eto caiff y canlyniadau hyn eu trafod yn y Panel Cymunedol, Bwrdd Newydd a byddant hefyd yn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o berfformiad Newydd ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru.

Eleni fe wnaethom hefyd ofyn y cwestiwn ble roeddech yn derbyn gwybodaeth am Newydd. Yr ymateb mwyaf yn ddiddorol iawn oedd In View ac ymatebion eithaf mawr ar gyfer ein tudalennau ar Facebook a Twitter.

Sut ydych chi'n cael eich gwybodaeth am Newydd?

45% trwy ddarllen In View
16% trwy holi aelod o staff
16% trwy ffonio Newydd
5% trwy Facebook
4% trwy ddarllen y wefan
4% trwy fynychu un o'r grwpiau tenantiaid
4% dim o'r uchod
4% arall
1% trwy Twitter



Os hoffech weld canlyniadau llawn yr Arolwg Tenantiaid gallwch ddod i gyfarfod y Panel Cymunedol tenantiaid a'u trafod gyda nhw. Neu gallwn e-bostio set cyfan o ganlyniadau atoch os gwnewch chi gysylltu â ni wrth ymholiadau@newydd.co.uk neu ffonio 0303 040 1998.

Siopa di-stop!

Mae ein **Siopwyr Cudd Tenantiaid** wedi bod yn profi'r gwasanaethau y mae Newydd yn eu darparu ar eich cyfer ers Awst 2008.

Oherwydd eu gwaith mae newidiadau mawr wedi'u gwneud i'n gwasanaeth cwsmeriaid. Er enghraifft, mae Siopwyr Cudd wedi newid y ffordd y mae ein system ffôn yn gweithio, gwell ymatebion i negeseuon e-bost gan ein cyfeiriad ymholiadau@newydd.co.uk ac yn fwy diweddar sicrhau nad ydych yn cael neges peiriant ateb wrth ffonio gwasanaeth allan o oriau swyddfa.

Rydym yn parhau i chwilio am ragor o breswylwyr i ymuno fel Siopwyr Cudd. Fel Siopwr Cudd gallwch er enghraifft ddewis asesu cartref gwag i weld â yw'n cwrdd â'r safonau neu e-bostio staff i wirio eu gwybodaeth am bwnc neilltuol neu gallwch ffonio staff i ddarganfod beth y maent yn ei wybod am broses arbennig. Yna cewch ddweud wrthym beth yr ydych wedi'i ddarganfod ac os nad yw safonau wedi'u diwallu yna gallwn eu gwella.

Unwaith y byddwch wedi ymuno does dim rhaid i chi gymryd rhan ym mhob sesiwn – gallwch ddewis pryd yr ydych eisiau cymryd rhan. Dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud wrthym, da neu ddrwg, am ein gwasanaethau a staff – ac fe gewch £20 am bob sesiwn y byddwch yn cymryd rhan ynddi ar gyfer costau defnyddio eich ffôn.

Caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r Panel Cymuned, Bwrdd Newydd ac i'r Grŵp Craffu. Yna bydd rheolwyr yn creu cynllun gwelliant i weithio ar feysydd lle nad ydym yn perfformio'n dda a chynnal y meysydd lle mae pethau yn gweithio'n dda.

Os ydych eisiau gwneud gwahaniaeth i wasanaethau a safonau Newydd ymunwch fel Siopwr Cudd trwy gysylltu gyda **Bethanie** yn y **Tîm Partneriaeth Cymunedol** trwy ffonio **0303 040 1998**.

Stephen Newman yn trafod undebau credyd

Yn ogystal â bod yn breswylydd Newydd yn Ystad Stryd Thompson yn y Barri, rwyf yn aelod Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Castleland lle rydym yn helpu preswylwyr i ddod at ei gilydd.

Undebau Credyd a Benthycwyr Siarc
Dros gyfnod y Nadolig gall y cwestiwn o gredyd neu ddebyd fod ar eich meddwl ac efallai eich bod yn ystyried defnyddio benthycwyr siarc i'ch helpu i brynu anrhegion i'ch teulu. Ond daw amser efallai pan na fyddwch yn gallu ad-dalu'r benthycwyr siarc hyn a gallant hyd yn oed eich bygwth… dydyn nhw byth yn esbonio'r cyfraddau llog.

Os ydych yn poeni a fenthyciwr arian yn eich ardal chi neu os oes benthyciwr arian yn eich bygwth yna gallwch adrodd amdanynt wrth Uned Benthyg Arian yn Anghyfreithlon sydd â llinell gymorth gyfrinachol 24 awr ar 0300 123 33 11.

A oes angen benthyg arian arnoch?
Ceisiwch fynd i le diogel ac ewch at eich undeb credyd lleol. Cyrff cydweithredol ydy undebau credyd ac maent yn arbenigo mewn cynilion a benthyciadau o gyn lleied â £100.

Mae Undeb Credyd Dragon Savers ar gael yn ardal Rhondda Cynon Taf. Cysylltwch â nhw yn:
107 Bute Street
Treorci
CF42 6AU
01443 777043
stonemanc@dragonsavers.org

Os ydych yn byw yng Nghastellnedd cysylltwch ag Undeb Credyd Nedd Port Talbot:
26 Windsor Rd
Castellnedd
SA11 1LU
01639 632100
admin@nptcu.co.uk

Mae Undeb Credyd Robert Owen Sir Drefaldwyn Cyfyngedig yn ardal y Drenewydd:
26 Market St,
Y Drenewydd,
Powys
SY16 2PD
01686 623741
www.romcul.co.uk

Os ydych yn byw yng Nghaerdydd cysylltwch ag Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW
029 2087 2373
ccu@cardiffcu.com
www.cardiffcu.com

Ydych chi eisiau symud?

Cyfnewid cydfuddiannol (cyfnewid eich cartref) yw'r ffordd gyflymaf o ddarganfod cartref newydd.

Mae HomeSwapper ar gael i denantiaid sydd eisiau newid tŷ neu fflat. HomeSwapper yw'r gwasanaeth cyfnewid cydfuddiannol mwyaf i denantiaid cymdeithasau tai a chyngor sydd eisiau cyfnewid cartrefi. Os ydych yn byw mewn tŷ cyngor neu eiddo cymdeithas tai efallai bod modd i chi gyfnewid.

Mae AM DDIM i denantiaid Newydd, dysgwch ragor yn www.HomeSwapper.co.uk neu holwch eich Swyddog Tai.

Mae tenantiaid yn ymuno â HomeSwapper i ddarganfod tenantiaid eraill all fod â diddordeb yn eu cartref.

Mae HomeSwapper yn defnyddio'r manylion yr ydych yn eu rhoi i ddarganfod tenantiaid eraill all fod â chartref y byddech yn ei hoffi ac a fyddai â diddordeb yn eich eiddo chi.

Pan fydd HomeSwapper yn darganfod rhywun byddant yn anfon testun SMS atoch neu e-bost. Yna gallwch logio ar HomeSwapper, edrych ar y cartref ac os ydych yn hoffi ei olwg gallwch drefnu mynd i'w weld.

Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os ydych eisiau help i ddefnyddio'r system, cysylltwch â ni ar **0303 040 1998**, **ymholiadau@newydd.co.uk**, **www.newydd.co.uk** neu trwy **Facebook** neu **Twitter**.

HomeSwapper

inview

Cymryd rhan yn eich grwpiau tenantiaid...

Ydych chi ddim yn deall beth mae'r grwpiau yn ei wneud? Gofynnwch am Bethanie yn ein Tîm Partneriaeth Cymunedol trwy ffonio **02920 005478** neu e-bostiwch **bethanie.morgan@newydd.co.uk**.

Ionawr	**Dyddiad**	**Amser**	**Lleoliad**
Grŵp Tâl Gwasanaeth	12eg Ionawr	10:00yb – 12:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Newydd (NEADS)	19eg Ionawr	11:00yb – 1:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Grŵp Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol	26ain Ionawr	11:00yb – 12:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Chwefror	**Dyddiad**	**Amser**	**Lleoliad**
Diwrnod i Ffwrdd y Panel Cymunedol	1af Chwefror	Digwyddiad diwrnod cyfan	Lleoliad i'w gadarnhau
Grŵp Ymgynghorol Polisi	9fed Chwefror	10:00yb – 12:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Grŵp Ymgynghorol Cynnal a Chadw	9fed Chwefror	1:00yp – 3:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Grŵp Cefnogi Holl Dai Lloches (SASH)	23ain Chwefror	11:00yb – 1:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais
Mawrth	**Dyddiad**	**Amser**	**Lleoliad**
Panel Cymunedol	8fed Mawrth	11:00yb – 1:00yp	Ystafell Fwrdd Newydd Tongwynlais

Cyllid ar gyfer eich cymuned ar gael nawr!

Gallwch wneud cais nawr am gyllid oddi wrth Newydd am brosiect a fyddai yn helpu eich cymuned. Pam na wnewch chi gais am gyllid ar gyfer grŵp ieuenctid, prosiect gardd, cadw golwg ar y gymdogaeth neu helpu i wneud eich cymuned yn ddiogelach? I wneud cais ffoniwch Bethanie Morgan o'r Tîm Partneriaeth Cymunedol ar 02920 005478 i gael ffurflen.

Cymdeithas Tai Newydd
Tŷ Cadarn, 5 Village Way,
Tongwynlais CF15 7NE

Ffôn: 0303 040 1998
Testun: 07539 115 115
ymholiadau@newydd.co.uk
www.newydd.co.uk

@NewyddHousing

Newydd

newydd